# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Ymarfer Hap-samplu

## gan y Panel Craffu

## Achosion o Ddifrod Troseddol a Threfn Gyhoeddus

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel ar Achosion Oedolion

**Mehefin 2025**

# Cynnwys

Cynnwys

1.0 Overview ........ 2
2.0 Background, purpose, and methodology ........ 2
3.0 Approval by Panel Chair ........ 3
4.0 Actions taken following previous panel meeting ........ 3
5.0 Areas for improvement ........ 3
6.0 Consideration of Adult Cases ........ 3
7.0 Panel’s assessments to date ........ 6
8.0 Ethnicity and Gender ........ 9
9.0 Future Panel focus ........ 10

## 1.0 Trosolwg

Ar 18 Mehefin 2025, cyfarfu aelodau o'r Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys i adolygu detholiad o wyth achos oedolion a saith achos ieuenctid yn ymwneud â throseddau difrod troseddol a throseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus yr ymdriniwyd â hwy drwy ddatrysiadau y tu allan i'r llys. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r panel mewn perthynas ag achosion oedolion.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir trwy gyfrwng Microsoft Teams.

## 2.0 Cefndir, diben a methodoleg

Diben y Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys yw asesu, craffu a rheoli yn annibynnol ansawdd y defnydd o ddatrysiad y tu allan i'r llys gan Heddlu Dyfed-Powys. Gall y panel wneud argymhellion, rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, cyfathrebu canfyddiadau, hyrwyddo arferion gorau a nodi anghenion datblygu polisi neu anghenion hyfforddi posibl i'w hystyried gan yr heddlu neu asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig. Ni all y panel newid canlyniad gwreiddiol yr achos.

Mae aelodaeth y panel yn cynnwys partneriaid o fewn y system cyfiawnder troseddol sy'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, aelodau o Heddlu Dyfed-Powys, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, y Gwasanaeth Prawf, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid a mainc o ynadon.

Gyda'i gilydd mae aelodau'r panel yn cytuno ar faes i ganolbwyntio arno ym mhob cyfarfod. Maent yn cael ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod, sydd wedi'u dewis ar hap gan gadeirydd y panel. Yna, mae'r panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle bo'n bosibl, yn dod i gasgliad ynghylch priodoldeb y gwarediad. Wrth benderfynu ar hyn, mae'r panel yn ystyried y meini prawf canlynol:

- barn ac adborth y dioddefwr a'r troseddwr
- cydymffurfedd â pholisi'r heddlu
- y rhesymeg dros y penderfyniad a'r canlyniad
- yr effaith bosibl ar y gymuned
- yr amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd
- opsiynau eraill posibl a allai fod wedi bod ar gael

Mae'r panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:

- defnydd priodol sy'n gyson â pholisi
- defnydd priodol ond bod gan aelodau'r panel amheuon
- defnydd amhriodol neu anghyson â pholisi
- y panel yn methu â dod i gasgliad

## 3.0 Cymeradwyaeth gan gadeirydd y panel

Gallaf i _Carys Morgans_ (printiwch eich enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llawn y safbwyntiau a fynegwyd gan y panel yn ystod ein hymarfer hapsamplu, dyddiedig 18 Mehefin 2025.

Llofnodwyd: 

Dyddiad: 29.09.2025

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y panel

O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Ddatrysiadau y Tu Allan i'r Llys, mae'r camau gweithredu canlynol wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf:

- darparwyd adborth i swyddogion mewn perthynas ag asesiad y panel o ddefnydd amhriodol o ddatrysiad y tu allan i'r llys

## 5.0 Meysydd i'w gwella

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella yn ystod yr adolygiad o achosion oedolion:

- nid oedd gan ddau o'r achosion a adolygwyd gan y panel adroddiad y datrysiad cymunedol oedolyn ynghlwm wrth y log digwyddiadau
- nid oedd rhai o'r adroddiadau a ddarparwyd i'r panel yn glir, ac roedd gwybodaeth bwysig ar goll
- penderfynodd y panel fod adroddiadau datrysiad cymunedol oedolyn yn cael eu rhoi'n amhriodol i droseddwyr honedig a oedd wedi cyflawni troseddau helaeth yn y gorffennol, a holodd y panel a oedd y rhain wedi cael sylw gan swyddogion

## 6.0 Ystyriaeth o achosion oedolion

O'r wyth achos oedolion, roedd pump wedi cael eu trin drwy ddatrysiad cymunedol oedolyn, ac un drwy warediad adferol ieuenctid.

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Priodol | 2 |
| Priodol ond gydag amheuon | 3 |
| Amhriodol | 3 |

Manylir ar sylwadau aelodau'r panel isod.

**Achos 1**

Nodwyd gan y panel nad oedd adroddiad datrysiad cymunedol oedolyn wedi'i atodi i'r log digwyddiadau, a oedd yn golygu nad oedd rhywfaint o'r wybodaeth ar gael, ac yn sgil hyn roedd penderfyniad y canlyniad yn aneglur. Amlygwyd pa mor hanfodol yw hi bod swyddogion yn cofnodi'r holl wybodaeth angenrheidiol. Mewn perthynas â'r achos, nodwyd gan y panel bod y digwyddiad wedi bod yn hirfaith ac yn ymosodol iawn mewn man cyhoeddus. Nodwyd hefyd bod y troseddwr honedig wedi cyflawni troseddau trefn gyhoeddus o natur debyg yn y gorffennol. Bu'r panel hefyd yn holi a oedd y datganiad gan y tyst wedi dod i law o gwbl ac wedi'i ystyried gan swyddogion cyn i'r canlyniad gael ei gymhwyso. O'r wybodaeth a ddarparwyd, penderfynodd y panel fod y canlyniad wedi'i gyhoeddi gan y swyddogion cyn i ddatganiad y tyst ddod i law. Barnwyd felly bod y datrysiad cymunedol oedolyn a gyhoeddwyd yn anghyson â pholisi datrysiadau y tu allan i'r llys.

**Asesiad y panel: Amhriodol**

**Achos 2**

Cydnabuwyd bod y dioddefwr yn gefnogol i'r canlyniad, ond cofnodwyd hefyd ei fod wedi'i ddychryn yn fawr gan y troseddwr honedig. Tynnodd y panel sylw at y ffaith bod y troseddwr honedig wedi cyflawni troseddau trefn gyhoeddus yn y gorffennol a'i fod ar brawf am drosedd debyg ar adeg y digwyddiad. Cwestiynwyd a oedd cyfnod prawf y troseddwr honedig wedi'i dorri, a holodd y panel pam fod y swyddogion prawf wedi ymdrin â'r digwyddiad hwn drwy'r heddlu yn hytrach na thrwy dor contract ymddygiad y cyfnod prawf. Oherwydd natur y digwyddiad, a hanes blaenorol y troseddwr honedig, penderfynwyd bod defnyddio'r datrysiad cymunedol oedolyn yn amhriodol.

**Asesiad y panel: Amhriodol**

### Achos 3

Cydnabu'r panel droseddau blaenorol y troseddwr honedig, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt yn ddigwyddiadau yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau. Felly, trafodwyd a oedd gweithgaredd dargyfeiriol drwy'r datrysiad cymunedol oedolyn yn addas ar gyfer cefnogi'r troseddwr honedig. Ni nodwyd yn glir at ba weithgaredd dargyfeiriol yr oedd y datrysiad cymunedol oedolyn yn cyfeirio'r troseddwr honedig, ac oherwydd y diffyg manylder hwn roedd gan y panel amheuon, ond cytunwyd bod y datrysiad cymunedol oedolyn yn briodol.

**Asesiad y panel: Priodol ond gydag amheuon**

### Achos 4

Cydnabuwyd bod y drosedd hon yn un lefel isel ac nad oedd gan y troseddwr honedig unrhyw olion o unrhyw euogfarnau na throseddau blaenorol. Felly, daeth y panel i'r casgliad bod hwn yn ddefnydd priodol o'r datrysiad cymunedol oedolyn.

**Asesiad y panel: Priodol**

### Achos 5

Cymeradwyodd y panel lefel y manylder a oedd wedi'i gynnwys yn y ddogfennaeth a ddarparwyd. Cydnabuwyd bod y troseddwr honedig wedi dangos llawer iawn o edifeirwch a bod ymddiheuriad ac iawndal wedi'u rhoi i'r dioddefwr. Felly, cytunodd y panel fod hwn yn ddefnydd priodol o'r datrysiad cymunedol oedolyn.

**Asesiad y panel: Priodol**

### Achos 6

Nodwyd bod difrod sylweddol wedi'i achosi gan y troseddwr honedig er nad oedd yn glir beth oedd maint y difrod. Nodwyd gan y panel y gallai'r drosedd fod wedi effeithio ar adnodd cymunedol, ac er y cytunwyd y byddai iawndal yn cael ei dalu, roedd yr anfoneb dal yn ddyledus. Nodwyd gan y panel bod y swyddogion wedi cau'r datrysiad cymunedol oedolyn gyda'r anfoneb yn dal yn ddyledus; felly, cwestiynwyd a fyddai hyn yn cael ei gyflawni. Cydnabuwyd mai cwmni mawr oedd y dioddefwr yn y digwyddiad hwn, a rhannodd aelodau'r panel eu profiad bod cwmnïau mwy yn ffafrio datrysiad cyflymach trwy ddatrysiad y tu allan i'r llys yn hytrach na mynd i'r llys. Penderfynwyd bod y datrysiad cymunedol oedolyn yn briodol, ond nodwyd gan y panel yr angen i gofnodi rhagor o wybodaeth gan

gynnwys dymuniadau'r dioddefwyr a chadarnhad a ddarparwyd yr iawndal ai peidio.

**Asesiad y panel: Priodol ond gydag amheuon**

**Achos 7**

Cydnabu'r panel nad oedd y troseddwr honedig wedi cyflawni unrhyw droseddau yn y gorffennol, a'i fod yn berchennog ci cyfrifol a gytunodd i dalu iawndal i'r dioddefwr. Holodd y panel ynglŷn â phwy oedd perchennog y defaid gan nad oedd hynny'n glir yn y ddogfennaeth a ddarparwyd. Yn hyn o beth, daeth y panel i'r casgliad bod datrysiad cymunedol oedolyn yn briodol ond bod gan aelodau'r panel amheuon ynghylch eglurder yr wybodaeth a gofnodwyd.

**Asesiad y panel: Priodol ond gydag amheuon**


**Achos 8**

Cydnabu'r panel fod y rhingyll wedi cymryd camau cadarnhaol ond bod y camau gan y Tîm Plismona ac Atal Bro yn wael. Nodwyd hefyd fod diffyg gwybodaeth yn y ddogfennaeth a'i bod yn aneglur; felly, nid oedd y panel yn siŵr a roddwyd iawndal i'r dioddefwr. Codwyd pryderon gan aelodau'r panel ynglŷn â'r ffaith bod y troseddwr honedig wedi cael gwarediad adferol ieuenctid, sydd ar gyfer pobl ifanc yn unig. Felly, roedd hwn yn ddefnydd amhriodol o'r datrysiad y tu allan i'r llys.

**Asesiad y panel: Amhriodol**


## 7.0 Asesiadau'r panel hyd yma

Mae'r siart isod yn dangos asesiad y panel o achosion oedolion o droseddau difrod troseddol a throseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf:





Mae'r panel wedi ystyried amrywiaeth o warediadau.Ar gyfer mis Mehefin 2024, roedd 100% o'r gwarediadau a ystyriwyd yn ddatrysiadau cymunedol oedolyn, ac ym mis Mehefin 2025 roedd 88% yn ddatrysiadau cymunedol oedolyn a 12% yn warediadau adferol ieuenctid.


Gellir gweld y newid yng nghasgliadau'r panel rhwng mis Mehefin 2024 a mis Mehefin 2025 yn y graff isod:



Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad yn ôl y math o drosedd fel canran o achosion a ystyriwyd rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mehefin 2025.





Mae'r graff canlynol yn dangos nifer gwirioneddol yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd, a barn y panel a ddaeth yn sgil hynny yn eu cyfarfodydd rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mehefin 2025.




## 8.0 Ethnigrwydd a rhywedd

Mae’r siart canlynol yn dangos dadansoddiad o’r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran rhywedd:




Mae’r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o’r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran ethnigrwydd.

| Ethnigrwydd a nodwyd | Hunan-asesiad y sawl a ddrwgdybir | Asesiad y swyddog |
|---|---|---|
| Gwyn Prydeinig | 6 | 0 |
| Gwyn – Gogledd Ewrop | 0 | 6 |
| Anhysbys | 2 | 2 |

Mewn un o'r achosion a adolygwyd, ni chofnodwyd ethnigrwydd. Ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb o ran hil na rhywedd fel rhan o adolygiad y panel.

## 9.0 Ffocws y panel yn y dyfodol

Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y panel y byddai'n dymuno canolbwyntio ar achosion stelcio ac aflonyddu yn y cyfarfod nesaf.